# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu gweithgareddau'r Cynghorydd dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| **Cynghorydd:** | Robert Francis-Davies | Adran Etholiadol: | Treforys |
|---|---|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Gweithiais yn agos gyda'm cyd-gynghorwyr Ward wrth gynnal cymorthfeydd wythnosol rheolaidd. Cynhelir Cymhorthfa Ward Treforys yn Llyfrgell Treforys bob bore dydd Sadwrn rhwng 10am a 12pm ac nid oes rhaid gwneud apwyntiad.

Mynychais gyfarfodydd P.A.C.T. yn rheolaidd gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, yn ogystal â chyfarfodydd preswylwyr rheolaidd.

Rwyf wedi ymdrin â nifer o faterion etholwyr yn y gymhorthfa, gan amrywio o faterion a oedd yn ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai, Cludiant ac Addysg i enwi ychydig yn unig.

**Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu drwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Penodiadau | 2 | / | 2 | 100 | % |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 12 | / | 12 | 100 | % |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 11 | / | 12 | 92 | % |
| Pwyllgor Archwilio | 6 | / | 11 | 55 | % |
| Fforwm Cynghorau Cymuned/Tref | 0 | / | 3 | 0 | % |
| Y Cyngor | 12 | / | 15 | 80 | % |
| Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd | 4 | / | 8 | 50 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 6 | / | 8 | 75 | % |
| Grŵp Partneriaeth AoHNE Gŵyr | 3 | / | 4 | 75 | % |
| Grŵp Ymgynghorol y Cynllun Datblygu Lleol | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 4 | / | 15 | 27 | % |
| Panel y Gronfa Datblygu Cynaliadwy | 2 | / | 3 | 67 | % |
| CYFANSWM | 63 | / | 94 | 67 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd**

Ymdriniais â'm rôl gynrychioli o ddifrif trwy fynd i nifer o gyfarfodydd ar ran etholwyr Treforys. Rwyf wedi bod yn Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu a Phwyllgorau Cynllunio Ardal 1 a 2. Rwyf hefyd wedi bod mewn 2 gynhadledd yng Nghaerdydd a oedd yn ymwneud â Bil Cynllunio Cymru.

Roeddwn yn Gyfarwyddwr BID Abertawe Ltd., (Rhanbarth Gwella Busnes) ac yn Is-Gadeirydd Grŵp Ymgynghorol y Cynllun Datblygu Lleol.

Bûm yn Lywodraethwr yn Ysgol Gynradd Pentregraig, ond ymddiswyddais er mwyn cymryd rôl Llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Treforys.

Rwy'n Gadeirydd y Grŵp Llafur, ac wedi bod ers tro, a chynrychiolais y Blaid Lafur yng Nghynhadledd Plaid Lafur Cymru yn Brighton eleni.

## Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Ar y cyd â Siambr Fasnach Treforys a chyda'm cyd-Gynghorwyr Ward, gwnaethom ddefnyddio cyfran o'n harian Gwella'r Amgylchedd i brynu goleuadau Nadolig newydd ar gyfer ardal Treforys.

Rydym hefyd wedi gosod meinciau newydd ym Mharc Treforys o amgylch yr ardal chwarae a'r senotaff.

## Adran 5: Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi ymgymryd â'r hyfforddiant canlynol:

14/10/2013 - Cyn-benderfynu

## Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill

Mae wedi bod yn hawdd cysylltu â mi drwy e-bost neu ar y ffôn, gan gynnwys y ffôn symudol. Rwyf wedi ymweld â nifer o etholwyr yn eu cartrefi i ddatrys problemau.

## Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr

Cyflog Uwch - £21,910 y flwyddyn (Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu)

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 29.05.14 |